Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd, CF99 1NA

23 Rhagfyr 2015

Annwyl Weinidog

Rwyf yn ysgrifennu atoch wedi i mi gael llawer o gyfarfodydd adeiladol â'ch swyddogion, ac ar ôl i mi gael eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr a'r wybodaeth ddilynol a ddarparwyd gan eich swyddfa ynglŷn â'r camau gweithredu a oedd yn berthnasol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd wedi fy argyhoeddi o'ch ymrwymiad i fodloni'r mwyafrif o'm Gofynion ar gyfer Gweithredu ac i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Ar hyn o bryd, nid oes modd i mi gynnig barn ar rai o'r 20 o Ofynion ar gyfer Gweithredu sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru (5.2, 6.2, 6.4, 6.5, 7.1, 7.2), gan eu bod yn dal i ddatblygu drwy reoliadau neu ddeddfwriaeth arall. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal ac yn uniongyrchol gyda'ch swyddogion wrth i'r rheoliadau a'r deddfwriaethau perthnasol eraill gael eu datblygu.

Serch hynny, rwyf yn dal i boeni am un Gofyniad ar gyfer Gweithredu, sef 'adrodd am hanfodion gofal mewn cartrefi nyrsio', ac rwyf eisoes wedi cytuno i drafod hyn yn fanylach â'ch swyddogion.

Fel y gwyddoch chi, byddaf yn cynnal Adolygiad dilynol yn 2017, a byddaf yn cyhoeddi manylion yr Adolygiad hwnnw yn gynnar yn 2016. Yn y cyfamser, er mwyn sicrhau bod y gwaith cynnar sy'n mynd rhagddo eisoes yn cael yr effaith fwyaf bosib, rwyf wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd â'ch swyddogion ynghyd â gofyn am ddiweddariadau chwarterol gan y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Diolch am eich ymrwymiad parhaus i wella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru